Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Y Cyngor a'i Adrannau

Taflen wybodaeth

Rhagfyr 2007

Yr Undeb

Mae patrwm trefn Undeb yr Annibynwyr yn un syml iawn. Gellid ei esbonio fel hyn:

Yr Eglwysi a'u haelodau
⇩
Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb
⇩
Pwyllgor Gweinyddol
⇩
Y Cyngor
⇩
Yr Adrannau
⇩
Amrywiol is-bwyllgorau

Dengys yr uchod mai'r Eglwysi sy'n rhoi bodolaeth i'r Undeb ac na all yr Undeb gyflawni ei waith heb eu cefnogaeth. Gan mai dim ond ychydig o weithwyr cyflogedig sydd gan yr Undeb, mae'n dibynnu i raddau helaeth iawn ar ewyllys da gwirfoddolwyr er mwyn cyflawni ei waith. Yn weinidogion ac aelodau, mae'r gwirfoddolwyr hynny wedi rhoi gwasanaeth gwych dros y blynyddoedd a chydnabyddwn yn ddiolchgar gyfraniad pob un sydd wedi rhoi o'u hamser a'u hegni i gynorthwyo.

Prif dasg yr Undeb yn y cyd-destun hwn yw trefnu'r gwaith a'r gweithwyr. Gwneir hynny trwy amrywiol gynadleddau a phwyllgorau.

Bydd yr Annibynwyr yn dod at ei gilydd unwaith y flwyddyn i'r Cyfarfodydd Blynyddol fydd wedi eu trefnu mewn man cyfleus, fel arfer ym mis Mehefin neu Orffennaf.

Wedyn, bydd y Pwyllgor Gweinyddol, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ym misoedd Ebrill/Mai a Hydref/Tachwedd, yn sicrhau fod yr hyn a benderfynwyd yno yn cael ei weithredu. Gwna hynny trwy ddirprwyo'r gwaith i'r Cyngor.

Y Cyngor
Mae'r Cyngor yn cynnwys:

1. holl swyddogion yr Undeb
2. 3 chynrychiolydd o bob Cyfundeb, i gyd yn gwasanaethu am gyfnodau o 3 blynedd
3. Cadeiryddion ac ysgrifenyddion yr Adrannau, eto i wasanaethu am 3 blynedd
4. 3 wedi eu hethol yn flynyddol gan y Gynhadledd yn y Cyfarfodydd Blynyddol, i wasanaethu am 3 blynedd
5. arbenigwyr fydd wedi eu gwahodd i fynychu'r Cyngor i drafod unrhyw fater neilltuol

Gyda'i gilydd, mae hyn yn rhoi cyfanswm o tua 70 o bobl.

Yr Adrannau
Rhennir y Cyngor yn chwe Adran, sef,

- Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang
- Cyllid
- Materion Teuluol (mae hon wedi cymryd lle'r Adran Ieuenctid ond yn cynnwys cyfrifoldeb am yr ifanc)
- Addysg a Chyfathrebu
- Dinasyddiaeth Gristnogol
- Eglwysi a'u Gweinidogaeth

Mae pob aelod o'r Cyngor yn perthyn i ddwy o'r Adrannau hyn. Y Cyfundebau sy'n penderfynu i ba Adrannau y mae eu cynrychiolwyr hwy yn perthyn, a lleolir yr aelodau eraill mewn Adrannau yn dilyn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Cyffredinol.

Cyfarfodydd
Mae'r Cyngor yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, dros gyfnodau o 24 awr ym mis Mawrth a Hydref, ac wedyn ar ddechrau'r Cyfarfodydd Blynyddol ym mis Mehefin/Gorffennaf. Daeth yn arferiad i gynnal cyfarfodydd misoedd Mawrth a Hydref ar ddyddiau Gwener a Sadwrn ym mhlas Gregynog ym Mhowys. Yn 2008 byddant yn cael eu cynnal ar 14-15 Mawrth a 31 Hydref – 1 Tachwedd. Yn 2009 bydd Cyngor y Gwanwyn yn cael ei gynnal ar 13-14 Mawrth 13-14.

Datblygiad newydd yw cynnal cyfarfod llawn o'r Cyngor ym mis Hydref, ond y nod yw rhoi cyfle teg i'r Adrannau wneud eu gwaith yn effeithiol. Telir costau'r rhai sy'n mynychu Cyngor yr Hydref gan y Cyfundebau. Yr Undeb sy'n talu costau Cyngor y Gwanwyn.

Cynhadledd Deleffon
O dro i dro bydd Adran, neu swyddogion Adran, yn dymuno cynnal cynhadledd deleffon yn hytrach na dod â phobl at ei gilydd. Er mwyn trefnu hynny, dylid cysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Mae hyn yn wir am holl bwyllgorau'r Undeb.

Yr unig beth sydd ei angen ar gyfer cynhadledd o'r fath yw i bawb fydd yn cymryd rhan gytuno ar amser ar gyfer eu trafodaeth. Gallant ddefnyddio teleffon mewn unrhyw ran o'r byd. Anogir swyddogion yr Adrannau i wneud mwy o ddefnydd o'r cyfrwng hwn, i arbed arian ac amser.

Gwaith yr Adrannau
Gwaith yr Adrannau yw trafod pynciau perthnasol iddynt a chyflwyno'u hargymhellion arnynt i'r Cyngor llawn, ac oddi yno i'r Cyfarfodydd Blynyddol. Yn y Cyngor y digwydd y rhan fwyaf o'r trafodaethau manwl ar bynciau gweinyddol, ariannol a chenhadol yr Undeb.

Disgwyliadau
Disgwylir i aelodau'r Cyngor fod yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd neu anfon ymddiheuriad. Erfynnir ar i unrhyw rai sy'n methu mwy nac un cyfarfod ystyried ildio eu lle i rywun arall fydd yn abl i fod yn bresennol. Hyd yn oed pan fo ymddiheuriad yn cael ei anfon, erfynnir am i ymdrech gael ei gwneud i sicrhau fod cynrychiolydd dros dro yn llenwi'r bwlch.